No.

# PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 11 Hydref, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.D. Perkes (Cadeirydd); Cynghorydd J. Aviet (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, C. Iannucci, I.A.N. Perry a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), B. Brooks (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy), C.P. Franks a M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

## 342 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 343 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd I. Buckley.

## 344 COFNODION –

Gwnaeth y Cynghorydd M. Hooper sylw ar ateb a roddwyd o dan gofnod rhif 154 ynghylch trwyddedau priffyrdd dros dro. Roedd yr ateb a roddwyd yn y cyfarfod yn ymwneud ag a oedd unrhyw wahaniaeth yn yr ymatebion gan y cyhoedd i Ynys y Barri yn hytrach na'r Esplanade ym Mhenarth. Nodwyd, ar ôl y cyfarfod a thrwy e-bost, fod y Cynghorydd Hooper wedi cael gwybod mai dim ond un gŵyn a fu mewn perthynas ag Ynys y Barri, lle bu deisebau a llawer mwy o gwynion ynghylch Penarth. Er bod y cofnod yn cofnodi'n gywir yr hyn a ddywedwyd yn y cyfarfod, roedd y Cynghorydd Hooper o'r farn ei bod yn bwysig i ddatganiad mwy ffeithiol gael ei roi yn y cofnod cyhoeddus.

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf, 2022 fel cofnod cywir.

345 DATGANIADAU BUDDIANT –

Gwnaeth y Cynghorydd J. Aviet ddatganiad o ddiddordeb mewn perthynas ag Eitem 5 ar yr Agenda – Cronfa Grant Cymunedau Cryf. Natur y buddiant oedd bod merch y Cynghorydd Aviet yn aelod o Grŵp Theatrig Billboard. Oherwydd natur yr adroddiad, arhosodd y Cynghorydd Aviet yn y cyfarfod wrth ystyried yr Eitem Agenda.

346 BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD – TROSOLWG GAN Y CYFARWYDDWR LLE –

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Lle gyflwyniad trosolwg ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Beth oedd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Beth yw'r Fargen Ddinesig
- Targedau'r Fargen Ddinesig
- Sectorau blaenoriaeth a phortffolios buddsoddi
- Map cwmpas y portffolio
- Trosolwg o fuddsoddiadau'r portffolio – map ffordd fel ar 31 Mawrth 2022
- Trosolygon ariannol y rhaglen fuddsoddi – hyd yma ac wedi'u cynllunio ar gyfer 2022/23
- Map llywodraethu
- Swyddogaethau llywodraethu
- Dolenni defnyddiol
- Calendr ar gyfer 2022

Wrth drafod y cyflwyniad, gwnaeth aelodau'r pwyllgor y pwyntiau a ganlyn, a chafwyd ymatebion gan y Cyfarwyddwr Lle:

| **Ymholiad/sylw gan aelod** | **Ymateb** |
|---|---|
| Beth oedd rhaglen y Fargen Ddinesig yn ei olygu i bobl gyffredin? | Byddai'r Fro yn gallu derbyn cyfran o £734 miliwn o fuddsoddiad, gyda nifer o brosiectau'n cael eu hariannu yn y Fro. Roedd y rhain yn cynnwys nod i gael gwasanaeth trên bob hanner awr o Ben-y-bont ar Ogwr i Gaerdydd, y gyfnewidfa drafnidiaeth yn Nociau'r Barri, a £40 miliwn ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau trydan. Un o'r prosiectau mwyaf oedd prynu safle gorsaf bŵer Aberddawan, a fyddai'n cael ei ddatblygu'n barc ynni a busnes. Felly, roedd lefel y buddsoddiad yn arbennig o bwysig i fusnesau sy'n gweithredu yn y Fro. |
| A oedd posibilrwydd y byddai anghenion Bro Morgannwg yn cael llai o | Roedd y Fargen Ddinesig wedi ceisio peidio â bod yn rhy diriogaethol o ran sut yr oedd arian yn cael ei fuddsoddi, |

| | |
|---|---|
| ystyriaeth nag ardaloedd eraill y Fargen Ddinesig? | felly roedd manteision i'r rhanbarth ehangach, ac roedd y buddsoddiad sylweddol yn Aberddawan yn dangos y dull cytbwys a ddefnyddiwyd. |
| A oedd maes awyr Llandŵ yn cael ei ystyried fel lle i fuddsoddi ynddo? | Oedd, bu trafodaethau gyda'r tirfeddianwyr niferus ynglŷn â chyfleoedd drwy'r Gronfa Safleoedd – dim byd wedi dod drwodd hyd yn hyn, ond mae trafodaethau yn parhau. |
| Roedd gormod o ffocws ar elw a dim digon o sylw'n cael ei roi i newid yn yr hinsawdd ac ystyriaethau amgylcheddol, yn enwedig mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | Roedd gan y Fargen Ddinesig nifer o ddogfennau'n cyfeirio at y Ddeddf, a oedd yn hygyrch i gynghorwyr ac aelodau'r cyhoedd. Amlygodd y rhain fod amgylchedd a dyfodol y boblogaeth wrth wraidd yr hyn yr oedd y Fargen Ddinesig am ei gyflawni. Roedd nod i'r Fargen Ddinesig fod yn "fuddsoddwr moesegol", a ddangoswyd eto drwy'r buddsoddiad yn Aberddawan. Roedd buddsoddiad mewn trafnidiaeth yn canolbwyntio ar newid hinsawdd a gostyngiad mewn traffig ar y ffyrdd i leihau allyriadau. |
| A oedd y Fargen Ddinesig yn mynd ati i chwilio am gwmnïau solar i adeiladu ffermydd solar ym Mro Morgannwg? | Nac oedd. |
| Ar adeg creu'r Fargen Ddinesig i ddechrau, roedd awdurdodau lleol wedi galw am fwy o ymreolaeth a datganoli ar gyfer pennu ardrethi busnes, incwm, a'r gallu i godi tâl atodol seilwaith, ac opsiwn i awdurdodau lleol ddefnyddio atebion ariannol amgen. Galwyd hefyd am ddileu amodau grant y mae Llywodraeth Cymru yn eu lefelu er mwyn caniatáu cronni adnoddau. A oedd unrhyw un o'r rhain wedi'u symud ymlaen? | Roedd yn deg dweud nad oedd y rhain wedi'u cyflawni eto er gwaethaf sylwadau i Lywodraeth Cymru. Bu rhywfaint o symud, ond roedd trafodaethau yn parhau. Byddai diweddariad manylach yn cael ei geisio gan brif weithredwr y Fargen Ddinesig. |
| Ble oedd y Fargen Ddinesig mewn perthynas â'r canlyniadau a'r buddion a'r berthynas rhwng trosoledd y swm o arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi o'i gymharu â'r buddsoddiad preifat? | Roedd dau adolygiad porth wedi'u cynnal gan archwilwyr, a nodwyd bod buddsoddiad ar y trywydd iawn i fodloni disgwyliadau. Cydnabuwyd erioed y byddai'n cymryd rhai blynyddoedd i ddenu mwy o fuddsoddiad gan y sector preifat a fyddai'n cynyddu'r trosoledd a ddeuai drwodd. Byddai mwy o wybodaeth yn cael ei cheisio'n uniongyrchol gan y Fargen Ddinesig a'i throsglwyddo'n ôl i'r aelodau. |

| | |
|---|---|
| A oedd heriau sylweddol i'r rhaglen fuddsoddi o ganlyniad i chwyddiant cynyddol a chostau deunyddiau? | Ni fu unrhyw arwydd bod y rhaglen fuddsoddi dan fygythiad, ond ceisir eglurder ynghylch y Fargen Ddinesig ac adroddir yn ôl i'r aelodau. |
| A oedd y posibilrwydd o greu porthladdoedd rhydd yn rhanbarth Caerdydd wedi'i ystyried? | Bu trafodaethau gyda gweithredwr y porthladd, ond roedd wedi penderfynu canolbwyntio ei ymdrechion ar Bort Talbot gan mai hwn oedd yr unig borthladd dŵr dwfn yn yr ardal. Roedd trafodaethau ar y gweill hefyd gyda'r Fargen Ddinesig a Llywodraeth Cymru o amgylch Maes Awyr Caerdydd. |
| Beth oedd y broses graffu ar gyfer y Fargen Ddinesig? | Roedd yna gydbwyllgor craffu a oedd i fod i gael ei gyfarfod cyntaf ers yr etholiadau llywodraeth leol tua diwedd mis Hydref. Y Cynghorydd Perkes, fel cadeirydd Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio'r Fro, oedd cynrychiolydd y cyngor. |
| A oedd posibiliadau o wella'r seilwaith trenau ar gyfer ardal Penarth? | Byddai gwybodaeth yn cael ei cheisio gan gydweithwyr trafnidiaeth a'i throsglwyddo'n ôl i'r aelodau. |

Yn dilyn hynny

ARGYMHELLWYD – NODI cynnwys y cyflwyniad.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

347 CRONFA GRANT CYMUNEDAU CRYF (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 9 Mehefin 2022, fel y'i cynhwyswyd yn yr agenda, gan y Rheolwr Gweithredol – Adfywio a Chynllunio.

Ers lansio Cronfa'r Grant Cymunedau Cryf yn 2017, dywedwyd bod grantiau gwerth cyfanswm o £1,154,672.95 wedi'u dyfarnu i 120 o brosiectau ar draws Bro Morgannwg. Ymrwymiad hirdymor y cyngor oedd parhau â'r cymorth gyda dyraniad pum mlynedd newydd o £837,533 tan fis Ebrill 2025 a oedd yn cyd-daro â dechrau cyfnod o newid digynsail i bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Fro. Mewn ymateb i ddechrau'r pandemig, fe wnaeth cymunedau ledled y sir ymateb i'r heriau a gyflwynwyd, trwy ddatblygu prosiectau arloesol ac effeithiol yn gyflym a oedd yn cefnogi rhai o drigolion mwyaf bregus y Fro.

Holodd y Cynghorydd C. Champion a fyddai'r Tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn adleoli o'r Bont-faen i'r Barri. Yn ateb, dywedodd y rheolwr gweithredol y byddai'r cyngor yn cynnal swyddfa yn yr Hen Neuadd yn y Bont-faen. Y bwriad oedd y byddai swyddogion allan yn gweithio o fewn a gyda chymunedau, yn enwedig mewn

perthynas â mapio cymunedol.  Estynnodd y rheolwr gweithredol wahoddiad i aelodau'r tîm ddod allan i siarad â nhw am flaenoriaethau o fewn eu cymunedau.

Wrth ymateb i bwynt o eglurhad yn ymwneud â rôl Waterloo Foundation, cadarnhaodd y rheolwr gweithredol eu bod yn y gorffennol wedi darparu cyllid tuag at rai o fentrau Cronfa'r Grant Cymunedau Cryf.

Mi wnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi cynnwys yr adroddiad a phenderfyniadau'r Cabinet a wnaed ar 9 Mehefin, 2022.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

348 CYNGOR BRO MORGANNWG: CALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2022/23 (CYF) –

Cyflwynwyd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol y cyfeiriad gan y Cabinet o 7 Gorffennaf 2022 fel y'i cynhwysir yn yr agenda.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno Calendr Perfformiad Blynyddol Bro Morgannwg ar gyfer 2022/23, a oedd yn amlinellu'r cynlluniau ac adroddiadau allweddol a fyddai'n destun ystyriaeth gan aelodau drwy gydol y flwyddyn. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu sut y mae'r cyngor yn bwriadu ymgysylltu â'r garfan newydd o aelodau etholedig wrth lunio'r prosesau, y cynlluniau allweddol a'r adroddiadau sy'n cyd-fynd â'r Calendr Perfformiad Blynyddol i alluogi'r cyngor i fodloni gofynion perfformiad newydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a chyfrannu at nodau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Roedd Atodiad A yn cynnig dull o ymgysylltu ag aelodau ar Fframwaith Rheoli Perfformiad y cyngor drwy'r Calendr Perfformiad Blynyddol o weithgareddau i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth a chryfhau eu cyfranogiad wrth lunio a mireinio'r cynlluniau, adroddiadau a phrosesau allweddol a fydd yn eu cefnogi yn eu gwaith allweddol o asesu a oedd y cyngor yn cyflawni ei amcanion llesiant, yn sicrhau gwerth am arian ac yn gwella lles ei ddinasyddion. Byddai allbynnau'r gwaith ymgysylltu hefyd yn cael eu defnyddio gan swyddogion i lunio'r datblygiad, gan gynnwys fformat, cynnwys a chyflwyniad cynlluniau'r cyngor, adroddiadau, a mewnwelediadau data i gefnogi aelodau'n well yn eu rolau. Roedd hyn wedi'i lywio gan adborth a dderbyniwyd yn flaenorol gan aelodau etholedig, yn arbennig ynghylch cynhyrchu a chraffu ar gynlluniau gwasanaeth.

Ar ôl ystyried yr adroddiad,

ARGYMHELLWYD – BOD Calendr Perfformiad Blynyddol Bro Morgannwg 2022/23 a'r dull arfaethedig o ymgysylltu ag Aelodau yn ystod y flwyddyn i lunio a mireinio'r Calendr Perfformiad Blynyddol a phrosesau, cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig i alluogi'r Cyngor i fodloni'r gofynion perfformiad newydd. nodwyd.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

349 ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol o 13 Gorffennaf 2022 fel y'i cynhwyswyd yn yr agenda. Fe'i hystyriwyd ar y cyd ag Eitem 7 ar yr agenda gan fod y ddau yn ymwneud â'r un pwnc.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar ystod eang o weithgarwch sy'n cael ei wneud i sicrhau bod y cyngor yn parhau i gyflawni yn erbyn ymrwymiadau yn y Cynllun Her Newid Hinsawdd ac i fwrw ymlaen â Phrosiect Sero. Roedd cynnydd yn cynnwys gwaith yn ymwneud â defnyddio a hyrwyddo cerbydau trydan, teithio llesol, ynni, a’r Cynllun Seilwaith Gwyrdd. Yn ogystal, mae gwaith yn mynd rhagddo i wella ein data a'n cyfathrebu.

Nodwyd bod argymhelliad wedi'i wneud i roi cyflwyniad ar y Bartneriaeth Natur Leol i'r Pwyllgor Craffu; roedd hwn wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr.

Holodd y cadeirydd, y Cynghorydd S. Perkes, pryd y byddai'r polisi asedau a datgarboneiddio yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet, ac a fyddai'n cael ei adrodd i'r pwyllgor craffu hwn. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol y byddai hyn yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Rheoli Asedau Craidd y cyngor, a oedd i fod i fynd gerbron y Cabinet ym mis Rhagfyr. Byddai'r cynllun wedyn yn cael ei gyfeirio at y pwyllgor craffu hwn a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau.

Yn dilyn hynny

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI sylwadau’r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

(2) BOD Pwyllgor Craffu Yr Amgylchedd ac Adfywio yn cael cyflwyniad ar y Bartneriaeth Natur Leol pan gyflwynir yr adroddiad diweddaru nesaf ym mis Rhagfyr.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

350 ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet o 21 Gorffennaf 2022 fel y'i cynhwyswyd yn yr agenda ac fe'i hystyriwyd ochr yn ochr ag Eitem 7 ar yr agenda gan fod y materion yn berthnasol.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad, mi wnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r cynnydd y manylwyd arno yn yr adroddiad mewn perthynas â nifer o'r heriau o fewn y Cynllun Her Newid Hinsawdd.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

351 HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2021/22 (CYF) –

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Lle y cyfeiriad gan y Cabinet o 8 Medi 2022 fel y'i cynhwysir yn yr agenda.

Dywedwyd, yn gyffredinol, yn seiliedig ar yr adolygiad o berfformiad y llynedd, y credwyd, at ei gilydd, bod ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2021/22 wedi'u bodloni, yn yr hyn a oedd yn parhau i fod yn flwyddyn heriol i'r cyngor. Byddai'r casgliad yn cael ei adolygu i adlewyrchu canfyddiadau gwaith ymgynghori gyda dinasyddion, partneriaid, staff y cyngor ac ymgyngoreion statudol allweddol eraill ar ôl i weithgareddau ymgysylltu ddod i ben ddiwedd mis Medi.

Cynigodd y Cynghorydd J. Aviet ei longyfarchiadau a diolch i'r staff am gyflawniadau anhygoel mewn amgylchiadau anodd.

Holodd y Cynghorydd S. Wiliam ynghylch statws y cais i'r Gronfa Ffyniant Bro fel yr amlinellwyd ar dudalen 9 o'r atodiad.  Mewn ymateb, dywedodd y cyfarwyddwr bod angen adolygu'r naratif yn yr adroddiad gan fod dau gais ar wahân wedi'u hariannu gan Lywodraeth y DU.  Y cyntaf oedd y cais i'r Gronfa Ffyniant Bro, a oedd yn gylch ceisiadau cystadleuol yr oedd y cyngor wedi cyflwyno cais yn llwyddiannus ynddo. Nid oedd y cais wedi'i ddyfarnu'n llwyddiannus eto ac roedd penderfyniad yn yr arfaeth.  Ar ben hynny, roedd y Gronfa Ffyniant Gyffredin, yr oedd y cyngor wedi derbyn swm o ychydig dros £12 miliwn ohoni.

Gan nad oedd unrhyw ymholiadau na sylwadau pellach, mi wnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi cyfeirnod y Cabinet a'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol Drafft Cyngor Bro Morgannwg sydd ynghlwm.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad i asesu'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor o ran cyflawni ymrwymiadau ei Gynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2021/22 fel y'i haliniwyd ag Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol yn unol ag adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

352 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL BRO MORGANNWG 2011-3026: ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2021/2022 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet o 6 Hydref 2022 gan y Cyfarwyddwr Lle.

Roedd yr adroddiad yn ymwneud â phedwerydd Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), a oedd yn asesu perfformiad y polisïau o ran cyflawni amcanion y cynllun integredig, a oedd yn ymgorffori datblygu cynaliadwy ac Asesiad Amgylcheddol Strategol gan ystyried y fframwaith monitro a nodir yn y CDLl ac y cytunwyd arno gan yr arolygydd fel rhan o'r archwiliad CDLl ac a fabwysiadwyd wedyn gan y cyngor ar 28 Mehefin 2017.

Roedd fformat yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn dilyn y fformat a awgrymwyd yn Argraffiad 3 y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu diweddaraf (Mawrth 2020). Roedd yn cynnwys dangosyddion monitro craidd a lleol a defnyddiwyd system raddio 'goleuadau traffig' fel cymorth gweledol i fonitro effeithiolrwydd polisïau'r cynllun ac i roi trosolwg cyflym o berfformiad polisi.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r cyflawniadau polisi allweddol hyd yma ac yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o'r targedau monitro perthnasol wedi'u cyrraedd. Amlygodd y dangosyddion lle'r oedd angen ymchwil/ymchwiliad pellach. Yn gyffredinol, roedd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn dangos bod cynnydd da wedi'i wneud wrth weithredu'r mwyafrif o bolisïau'r cynllun a bod strategaeth y CDLl yn parhau i fod yn gadarn. Yn unol â hynny, argymhellwyd bod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2022 a'i gyhoeddi ar wefan y cyngor yn unol â Rheoliad 37 y CDLl. Yn ogystal, roedd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn cydnabod bod y cyngor wedi dechrau gweithio ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd, yn unol â Rheoliad 41 y CDLl.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M. Hooper at gynlluniau ar gyfer Nell's Point yn y Barri. Mewn ymateb, dywedodd y cyfarwyddwr, pan ysgrifennwyd y CDLl yn wreiddiol, fod yna gynlluniau yn ymwneud â safle'r ffair hwyl a chynigion yn ymwneud â'r safle hwnnw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer hamdden ac adloniant. Disodlwyd y rhain gan fod rhan o'r safle wedi'i brynu gan y perchennog presennol a'r cynlluniau ar gyfer gwesty yn anffodus wedi methu. Roedd gwaith yn ymwneud â gweddill y safle yn cael ei ystyried drwy'r Fargen Ddinesig. O safbwynt ehangach, byddai Nell's Point ac Ynys y Barri yn gyffredinol yn cael eu datblygu yn yr un modd ag yr oedd prif gynllun ar gyfer y Barri.

Holodd y cadeirydd, y Cynghorydd S. Perkes, am siopau manwerthu a'r cyfraddau defnydd. Mewn ymateb, dywedodd y cyfarwyddwr fod rhywfaint o ganllawiau cynllunio atodol newydd wedi'u cyflwyno fel mesur interim oherwydd COVID-19 a

bod hynny wedi rhoi hyblygrwydd i'r cyngor ynghylch defnydd adeiladau yng nghanol trefi. Roedd y canllawiau cynllunio atodol newydd a'r hyblygrwydd ychwanegol wedi bod yn llwyddiannus gan fod y gyfradd ddefnydd ar draws y Fro yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mi wnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD – Y DYLID derbyn pedwerydd Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref, 2022 ac i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

353 CAU CYFRIFON REFENIW 2021/22 (CAT) –

Roedd y cyfrifon wedi'u cwblhau, ac roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Pwyllgor Craffu o sefyllfa ariannol amodol y cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Roedd y sefyllfa refeniw diwedd blwyddyn yn amrywiad anffafriol o £13,000 ar ôl trosglwyddiadau net o £18.151 miliwn i'r cronfeydd wrth gefn, sef £642,000 wedi'i drosglwyddo i Gronfa'r Cyngor, £18.818 miliwn wedi'i drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn penodol o'r refeniw, £118,000 wedi'i dynnu i lawr o'r Gronfa Yswiriant a £1.191 miliwn wedi'i dynnu i lawr o'r cronfeydd wrth gefn i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf. Roedd Cronfa'r Cyngor bellach yn £12.510 miliwn ar 31 Mawrth 2022.

Dywedodd y cyfrifydd fod yna amrywiad ffafriol o £21,000 ar gyfer y cyllidebau o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu, ond roedd hyn ar ôl trosglwyddo cyllid o gronfeydd wrth gefn y cyngor. Roedd Atodiad 3 yn rhoi dadansoddiad llawn o'r defnydd o gronfeydd wrth gefn y cyngor.

Roedd targed arbedion refeniw o £146,000 wedi'i osod ar gyfer 2021/22 ar gyfer y pwyllgor hwn ac roedd diffyg o £75,000 yn erbyn y targed hwn yn ystod y flwyddyn, a byddai cyflawni'r arbedion hyn yn parhau i gael ei fonitro yn ystod 2022/23.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M. Hooper at arbedion effeithlonrwydd, a'r rhai a drosglwyddwyd i'r flwyddyn ariannol newydd. Dywedodd fod angen cyflawni'r arbedion a bod rhywfaint o bryder ynghylch lefel y manylion a ddarparwyd.

Holodd y cadeirydd a fyddai newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth a galw yn cael eu hadlewyrchu gyda'r targedau arbedion. Mewn ymateb, cadarnhaodd y cyfrifydd y gallai fod cynigion mewn rhai achosion i wneud arbedion mewn meysydd cyllideb eraill neu drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn.

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigir.

(2) Nodi cyllideb ddiwygiedig Derfynol 2021/22, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Rheswm dros yr argymhellion

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 sy'n adlewyrchu cynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2021/22.

354 CYFRIFON CYFALAF 2021/22 (CAT) –

Roedd y cyfrifon wedi'u cwblhau, ac roedd yr adroddiad yn hysbysu'r pwyllgor am sefyllfa ariannol amodol Rhaglen Gyfalaf y cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Cyfanswm y gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn oedd £66.411 miliwn, yr oedd yn gofyn am dynnu i lawr cyllid o £1.191 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn.

Roedd y sefyllfa gyffredinol ar Raglen Gyfalaf ddiwygiedig 2021/22 yn amrywiad o £13.410 miliwn yn erbyn rhaglen gynlluniedig o £79.821 miliwn. Roedd llithriad o £11.496 miliwn yn erbyn rhaglenni gwaith a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn ac roedd hyn wedi cael ei ddwyn ymlaen i Raglen Gyfalaf 2022/23 gyda chymeradwyaeth drwy bwerau argyfwng y Prif Weithredwr. Yr alldro cyffredinol ar gyfer y meysydd o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu oedd amrywiad o £2.628 miliwn yn erbyn rhaglen gynlluniedig o £18.007 miliwn. Roedd y datganiad yn Atodiad 1 yn manylu ar yr alldro fesul cynllun. Roedd y llithriad i'r pwyllgor yn £1.745 miliwn ac fe'i nodir yn Atodiad 2.

Dywedodd y Cynghorydd M. Hooper ei bod yn ddiddorol gweld faint o weithiau y disgrifiwyd pwysau chwyddiant yn y naratif ar gyfer rhai o'r cynlluniau yn yr adroddiad. Ychwanegodd ei bod yn hysbys iawn bod chwyddiant wedi cynyddu ers cau'r cyfrifon, a gofynnodd a oedd cyllidebau digonol eleni i allu cwblhau prosiectau cyfredol. Mewn ymateb, dywedodd y cyfrifydd fod y cynnydd yn cael ei fonitro'n fisol yn ystod y broses hon a hefyd y broses gosod cyllideb ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Byddai'n ofynnol i gyfarwyddiaethau dynnu sylw at unrhyw gynlluniau sydd â phwysau costau sy'n dod i'r amlwg er mwyn creu rhywfaint o arian wrth gefn neu gwtogi ar y cynllun.

Gyda chaniatâd i siarad, dywedodd arweinydd y cyngor, y Cynghorydd L. Burnett, fod y cyngor yn cyflawni'r rhaglen orau y gallai. Roedd heriau o ganlyniad i chwyddiant yn codi – er enghraifft, pan oedd darn o waith wedi'i dendro a'r holl wiriadau cyfreithiol wedi'u cyflawni, roedd rhai contractwyr wedi dod yn ôl yn nodi na allent bellach gwblhau'r gwaith o fewn y gyllideb a osodwyd. Felly, bu'n rhaid i'r cyngor fynd yn ôl i dendro, cwtogi neu ail-lunio'r cynllun.

Ychwanegodd yr arweinydd fod agenda cyfarfod blaenorol y Cabinet yn cynnwys strategaeth gyfalaf ddrafft y cyngor. Roedd hwn yn ddull newydd er mwyn amlygu llawer o'r materion yr oedd y cyngor yn eu hwynebu. Cydnabuwyd y byddai'n rhaid i'r cyngor fod yn hyblyg wrth symud ymlaen. Cydnabuwyd hefyd y byddai'n rhaid i'r

cyngor wneud mwy o waith i fonitro ei gyllideb cyfalaf, yn ôl pob tebyg o wythnos i wythnos, ac roedd yn bwysig adrodd yn ôl i'r aelodau ar hynny.

Cododd y Cynghorydd Hooper y pwynt ei bod hefyd yn bwysig hysbysu'r cyhoedd yn gyffredinol hefyd. Mewn ymateb, cytunodd arweinydd y cyngor yn llwyr, ac felly roedd yn bwysig siarad â'r cyhoedd am y bylchau ariannu a blaenoriaethau'r cyngor.

Yn dilyn hynny, mi wnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD – NODI’r sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

355 MONITRO REFENIW AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 AWST, 2022 (CAT) –

Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r pwyllgor o'r cynnydd mewn perthynas â gwariant refeniw ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Awst 2022.

Byddai'r sefyllfa refeniw ar gyfer 2022/23 yn parhau i fod yn heriol i'r cyngor yn weithredol ac yn ariannol oherwydd goblygiadau parhaus pandemig COVID-19 ac argyfwng costau byw. Roedd cronfa ymateb Covid gyffredinol o £1.249 miliwn wedi’i sefydlu yn ystod 2021/22 i helpu i gwrdd â rhai o’r pwysau hyn yn 2022/23.

Roedd pwysau a oedd yn dod i'r amlwg yn ystod 2022/23 yn ymwneud â thaliadau sefydlog ynni, y cynnig codiad mewn cyflog diweddar, chwyddiant cyffredinol, yn enwedig mewn meysydd fel cludiant ysgol a chostau byw, a phwysau staffio. Roedd pwysau chwyddiant a galw yn cael eu profi ar draws gwasanaethau a byddai angen eu monitro'n ofalus yn ystod y flwyddyn ariannol.

Ar hyn o bryd, roedd sefyllfa gyffredinol gytbwys gyda'r pwysau'n cael eu bodloni o danwariant yn y gyllideb polisi a rhywfaint o dynnu i lawr o gronfeydd wrth gefn y gwasanaethau.

Roedd targed effeithlonrwydd o £500,000 wedi ei osod ar gyfer y flwyddyn ac roedd gwasanaethau ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gyflawni eu targedau. Roedd rhai materion yn parhau mewn perthynas â thargedau arbedion nas cyflawnwyd o flynyddoedd blaenorol.

Roedd amrywiadau andwyol yn cael eu rhagweld ar gyfer rhai gwasanaethau eleni a byddai angen defnyddio cronfeydd wrth gefn i ddatrys y materion hyn yn y tymor byr.

Holodd y Cynghorydd J. Aviet a oedd tipio anghyfreithlon a hefyd difrod i dai yn cael unrhyw effaith sylweddol ar gyllideb y cyngor. Mewn ymateb, dywedodd y cyfrifydd y byddai'n dibynnu ar bwy oedd yn berchen ar y tir. Felly, os yr adran dai oedd hi yna

byddai'r costau clirio yn dod o dan y gyllideb honno. Eglurodd y cyfrifydd hefyd fod y cyngor yn ceisio cynyddu gorfodaeth i leihau nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon, ond roedd yn aml yn anodd adnabod y rhai oedd yn gyfrifol.

Yn dilyn hynny, mi wnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2022/23 yr Awdurdod.

(2) NODI'r trefniadau i wneud iawn am y gorwariant sy'n dod i'r amlwg yn 2022/23, fel y nodir yn yr adroddiad.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

(1&2) O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r alldro refeniw rhagamcanol ar gyfer 2022/23 yn ogystal â phwysau chwyddiant tâl a phrisiau sy'n dod i'r amlwg yn 2022/23.

356 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 1 2022/23 (PW) –

Roedd yr adroddiad perfformiad yn cyflwyno cynnydd y cyngor yn Chwarter 1 (Ch1) (1 Ebrill 2022 i 30 Mehefin 2022) tuag at gyflawni ymrwymiadau ei Gynllun Cyflawni Blynyddol (2022/23) yn unol ag amcanion llesiant ei gynllun corfforaethol.

Rhoddwyd statws perfformiad gwyrdd i bob un o bedwar amcan llesiant y cynllun corfforaethol yn Ch1 i adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed hyd yma o ran bodloni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol y cyngor ar gyfer 2022/23.

Rhoddwyd perfformiad gwyrdd i 94% (341 allan o 362) o'r gweithgareddau cynlluniedig a amlinellwyd yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y cyngor, gan adlewyrchu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y chwarter; rhoddwyd statws oren i 1% (2) o'r gweithgareddau a gynlluniwyd a statws coch i 5% (19) o'r gweithgareddau a gynlluniwyd.

O'r 128 o fesurau perfformiad sy'n cyd-fynd ag amcanion llesiant cynllun corfforaethol y cyngor, adroddwyd data ar gyfer 32 o fesurau lle'r oedd statws perfformiad yn berthnasol. Rhoddwyd statws perfformiad gwyrdd i 56% (18) o fesurau, statws oren i 13% (4) o fesurau a statws coch i 31% (10) o fesurau. Nid oedd statws perfformiad yn berthnasol ar gyfer 96 o'r mesurau. Roedd 22 o'r rhain yn ymwneud â'r mesurau hynny a sefydlodd perfformiad sylfaenol ar gyfer 2022/23, cafodd 67 o'r mesurau hynny eu monitro'n flynyddol, ac ni ddarparwyd diweddariad ar gyfer saith o'r mesurau hynny.

Mewn perthynas â'r gweithgareddau arfaethedig o fewn cylch gorchwyl Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio, rhoddwyd statws perfformiad gwyrdd i 98% (106 allan o 108), rhoddwyd statws oren i 1 (1%) a rhoddwyd statws coch i 1% (1). O'r

saith mesur a adroddwyd, cafodd 71% (5) statws perfformiad gwyrdd a 29% (2) statws oren.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r aelodau etholedig ystyried canlyniadau perfformiad Ch1 a'r camau adferol arfaethedig i fynd i'r afael â meysydd o danberfformiad a nodwyd. Ar ôl eu hystyried, argymhellwyd i'r Pwyllgor Craffu gyfeirio eu barn ac unrhyw argymhellion i'r Cabinet eu hystyried.

Soniodd y Cynghorydd J. Aviet am bwysigrwydd ymwybyddiaeth o ailgylchu a bod yn wyrdd. Soniodd hefyd am yr amharodrwydd ar rai pobl i ailgylchu, a dywedodd fod angen addysg bellach. Yn ateb, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth fod gan y cyngor wardeniaid gwastraff allan yn helpu pobl i ddysgu am ailgylchu ac i ddangos i bobl ble mae deunyddiau'n mynd. Roedd hyn yn ychwanegol at fideos ac adnoddau cyfarwyddiadol, ac roedd cynllun i gynorthwyo pobl a oedd yn cael trafferth wirioneddol, a allai gael bag porffor ychwanegol. Felly, roedd llawer o gyngor a chymorth ar gael.

Soniodd y Cynghorydd C. Champion am yr anawsterau o ran annog pobl ifanc yn eu harddegau a'r chweched dosbarth i beidio â gyrru i'r ysgol, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth petai'r rhieni wedi dewis ysgol ddalgylch, y byddai'r cyngor yn darparu cludiant am ddim. Roedd hyn yn unol â deddfwriaeth a oedd yn amlinellu bod yn rhaid darparu cludiant am ddim o fewn dwy filltir ar gyfer ysgolion cynradd a thair milltir ar gyfer ysgolion cyfun. Cydnabuwyd, yn ardal y Barri er enghraifft, nad oedd yn amlwg fod gan rai pobl hawl i gludiant am ddim ac y byddai hynny'n arwain at broblemau tagfeydd traffig. Rhieni unigol oedd yn gyfrifol am y dewis yn y pen draw, ond roedd y cyngor yn annog ysgolion i lunio cynlluniau teithio er mwyn edrych ar ddulliau teithio amgen.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau pellach, mi wnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi’r canlyniadau perfformiad a’r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23, sy’n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y dylid nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.